Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.11 Osgoi twyll

Beth yw twyll?

Ystyr twyll yw camddefnyddio bwriadol adnoddau'r mudiad er lles preifat. Mae'n cynnwys troseddau llai, megis newid cais treuliau, a throseddau mwy, megis dwyn arian. Os yw eich mudiad wedi dioddef twyll, nid ydych yn unigryw. Mae llawer o fudiadau gwirfoddol wedi dioddef twyll.

Y peth pwysicaf all mudiad wneud i osgoi twyll yw cydnabod ei fod yn digwydd. Gweithredir twyll fel arfer gan aelod o staff y mudiad, neu staff y partneriaid - gan amlaf gan bobl yr ymddiriedoch ynddynt yn y gorffennol.

Law yn llaw â dwyn, mae twyll cyffredin yn cynnwys:

- llwgrwobrwyon a delir i staff gan gyflenwyr neu fuddiolwyr
- gwerthu cyflenwadau ar gyfer elw personol
- defnydd anawdurdodedig asedau (e.e. ffôn, ceir)
- staff neu ymddiriedolwyr yn derbyn treuliau uchel (a gefnogir gan dderbynebau ffug)
- ariannu'r un prosiect gan ddau roddwr gwahanol, a
- rhoi adnoddau i staff neu fuddiolwyr sydd ddim yn bodoli.

Mae'n anodd i fudiadau ddod i dermau gyda thwyll am ei fod yn cynnwys bradychu ymddiried, ac am ei fod yn gallu arwain ar adroddiadau negyddol a all ddinistrio codi arian ac enw da.

Ond y brad mwyaf yw i'r rhoddwyr, y staff a'r buddiolwyr a ellir fod wedi derbyn cymorth gan y mudiad.

Osgoi twyll

Gellir osgoi twyll yn effeithiol dros ben drwy greu diwylliant trefniadol effeithiol sy'n defnyddio arian yn ofalus. Mae hwn yn dasg hollbwysig sy'n mynd at wraidd rheolaeth ariannol a sut mae mudiad yn cyflawni ei fwriad.

Fel mudiad, gallwch gyflawni hyn drwy:

- Ddarparu staff a gwirfoddolwyr gyda synnwyr pwrpas clir a chyfeiriad, a'i hysbrydoli i fyw gwerthoedd y mudiad.
- Darparu rheolaethau addas a gwirio eu bod yn gweithio - mewn ffordd sy'n rhoi grym i staff maes i wneud penderfyniadau da. Golyga hyn hefyd roi i'r staff yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd angen arnynt i weithio, e.e. dau lofnodwr ar siec.
- Sicrhau fod adroddiadau ariannol rheolaidd yn cael eu rhoi i fuddiolwyr.

Delio gyda thwyll

Hyd yn oed mewn mudiad cryf gyda diwylliant cadarnhaol, gall twyll ddigwydd. Cynghorir mudiadau i ddefnyddio polisi twyll ysgrifenedig sy'n nodi sut y byddwch yn ymateb i honiadau twyll.

Dylai hwn gynnwys sut y disgwylir atal twyll, sut i ymateb i wahanol fathau o anghysondeb, sut i roi gwybod am honiadau (gan gynnwys cyhuddo os yn addas) a sut y'u hymchwilir. Hefyd mae angen i staff a gwirfoddolwyr wybod am y polisi.

Rhaid trin pob honiad twyll yn ddifrifol a'i ymchwilio cyn gynted â phosib. Rhaid i ymchwiliadau mewnol fod yn deg a chymryd amser i gasglu gwir dystiolaeth cyn dod at ganlyniad. Mae hwn yn waith manwl ac yn cymryd llawer o amser. Gall y Comisiwn Heddlu ac Elusennau helpu - yn enwedig wrth adennill yr arian neu ddelio â'r troseddwyr.

Gall ymchwiliad eich helpu i ddeall sut i osgoi'r un math o dwyll yn y dyfodol. Ond: 'mae achosion eithafol yn gwneud cyfraith wael'. Gwell fyddai i chi newid eich rheolau a'ch polisïau yn dilyn myfyrdod gofalus - rhaid iddynt weithio ar gyfer amserau arferol, yn ogystal ag achosion eithafol.

Dylai mudiadau ystyried cofnodi manylion pob twyll, y gweithredu a wnaed, mewn llyfr cofnodion twyll. Mae hwn yn ddogfen bwysig ar gyfer monitro twyll ac ar gyfer dysgu sut i gryfhau systemau yn y dyfodol.

Gwybodaeth bellach

Cyllid a Thollau EM
Ffôn: 0845 010 9000
www.hmrc.gov.uk

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk